

9


5



4


7

## Ymweld

### 1 Y Pierhead
Ewch i gael gwybod mwy am yr adeilad a sut mae'r ardal o amgylch wedi newid dros y blynyddoedd.
**F: 0300 200 6565 www.senedd.cymru/ymweld-a-ni**

### 2 Senedd Cymru
Cartref democratiaeth yng Nghymru. Am ddim ac yn agored i wylio y Cyfarfod Llawn ac i weld arddangosfeydd a dysgu am sut i gymryd rhan. **F: 0300 200 6565 www.senedd.wales/visit**

### 3 Techniquest
Gwyddoniaeth synhwyraidd ym Mae Caerdydd. Dros 100 o arddangosion ymarferol sy'n ysgogi'r meddwl, a Sioeau Gwyddoniaeth Byw cyffrous i'r teulu i gyd ar y penwythnosau a gwyliau ysgol. **F: 029 2047 5475 www.techniquest.org**

### 4 Pedal Power
Cefnogwch ein helusen wrth gael hwyl! Amrywiaeth eang o feiciau cynhwysol i blant ac oedolion i'w llogi, ynghyd â seddi plant, tagalongs, bygis. Ar agor ar y penwythnosau a gwyliau ysgol.
**F: 02920 390713 www.cardiffpedalpower.org**

### 5 Canolfan Mileniwm Cymru
Lleoliad celfyddydau perfformio a diwylliannol mwyaf cyffrous Ewrop. Theatrau, orielau, bwytai, bariau, siopau, hwyl i'r teulu a mwy. **F: 029 2063 6464 www.wmc.org.uk**

### 6 Yr Eglwys Norwyaidd
Mae'r Eglwys Norwyaidd eiconig yn Ganolfan Gelfyddydau amlddefnydd sy'n cynnal digwyddiadau, perfformiadau, priodasau ac arddangosfeydd. Mae ganddi gaffi bywiog, teras, a golygfeydd godidog dros Fae Caerdydd. **F: 029 2049 2261**
**www.norwegianchurchcardiff.com**

### 7 Urdd Gwneuthurwyr Cymru - Crefft yn y Bae
Oriel wedi'i lleoli yn y D-Shed hanesyddol, yn dangos a gwerthu crefft gyfoes a chelf gymhwysol o ansawdd. Siop Grefftau, Arddangosfeydd, Gweithdai Crefft, Ystafell Gyfarfod.
**F: 029 2048 4611 www.makersguildinwales.org.uk**

### 8 Teithiau Cwch Caerdydd
Y Dywysoges Katharine - bws dŵr â gorchudd a 90 sedd, sy'n cysylltu Bae Caerdydd yng nghanol y ddinas, hefyd yn cynnig mordeithiau hamddenol awr o hyd. **F: 07445 440874**
**www.cardiffboat.com**

### 9 Craft*folK
Ffeiriau celf a chrefft go iawn wedi'u trefnu gan Craft*folK ym Mae Caerdydd, ar lefel uchaf Plas Roald Dahl: Gŵyl Banc y Gwanwyn 27-29 Mai, Gŵyl Fwyd a Diod Caerdydd 7-9 Gorffennaf, Marchnad Celf a Chrefft 21-23 Gorffennaf, Gŵyl Banc mis Awst 25-28 Awst. **F: 07974 561514 www.craftfolk.com**

### 10 Morglawdd Bae Caerdydd
Ewch am dro neu ar daith feicio a mwynhau arddangosfeydd rhad ac am ddim, man chwarae a pharc sglefrio, a thynnu hunlun ar fainc y Crocodeil Anferthol. **www.harbwrcaerdydd.com**

### 11 Memo Bay Café
Yr haf hwn, cymerwch hoe yn y caffi ar y Morglawdd. Mae'r fwydlen yn cynnwys diodydd poeth ac oer a bwyd blasus, ac mae seddi dan do a'r tu allan i fwynhau'r golygfeydd. **F: 029 2070 8556**

### 12 Her Cymru
Anturiaethau hwylio ar *Her Cymru | Llong Dal Cymru* sy'n 72 troedfedd ac *Antur Cymru* sy'n 60 troedfedd. Mordeithiau dydd a phreswyl ar gyfer oedolion, ysgolion, grwpiau a chwmnïau. Dim rhaid cael profiad hwylio. **F: 029 20 704 657**
**www.challengewales.org**

### 13 Ynys Echni
Ryw bum milltir o Gaerdydd, mae gan y perl cudd hwn hanes hynod ddiddorol a bywyd gwyllt anhygoel. Mae teithiau cwch ac amrywiaeth o lety ar gael i unigolion a grwpiau. **F: 029 2087 7900**
**www.ynysechni.com**

### 14 Llwybr Bae Caerdydd a Phont y Werin
Mae'r llwybr cerdded a beicio hwn sy'n mynd (oddeutu) 10 cilometr o amgylch y Bae yn cynnwys Pont y Werin rhwng y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol a Phenarth. Mae mapiau ar gael gan **www.harbwrcaerdydd.com**

### 15 Gwarchodfa Gwlyptiroedd Bae Caerdydd
Dros wyth hectar o hen forfa heli, mae'r Warchodfa'n gynefin i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r warchodfa yn hawdd ei chyrraedd ar hyd rhodfa raeanog a llwybr bordiau, ac mae ganddi ardal wylio sy'n ymestyn allan dros y dŵr.
**www.harbwrcaerdydd.com/cy/bywyd-gwyllt-a-chadwraeth**


2


18



17

## Aros

### 23 Holiday Inn Express
Wedi'i leoli mewn lle delfrydol rhwng Bae Caerdydd a Chanol y Ddinas, gyda brecwast yn rhan o'r pris a wi-fi am ddim drwy'r gwesty. Parcio ar y safle ar gael. **F: 029 2044 9000**
**www.exhicardiff.co.uk**

### 24 voco® Dewi Sant, Caerdydd
Gwesty 5 seren ar lannau godidog Bae Caerdydd. 142 ystafell wely, bwyty gyda theras. Cyfleusterau cynadledda/cyfarfod a Spa moethus. **F: 029 2045 4045 www.vocohotels.com/stdavids**

### 25 Future Inn
Mae Future Inn Caerdydd yn cynnwys 197 ystafell wely eang gyda pharcio am ddim, Wi-Fi am ddim, Bwyty "Thomas" ar y safle ac 8 ystafell gynadleddau sy'n gallu darparu ar gyfer hyd at 210 o westeion. **F: 029 2048 7111 www.futureinns.co.uk**

### 26 Cyfnewidfa Lo Caerdydd
Mae'r adeilad rhestredig Gradd II* wedi'i leoli yn Sgwâr Mount Stuart, yng nghanol Bae Caerdydd ac mae'n cynnig cyfle i westeion gymryd cam yn ôl mewn amser ac archwilio un o adeiladau mwyaf arwyddocaol Cymru. **F: 02921 991 904**
**www.coalexchangecardiff.co.uk**


6


15



16

## Bwyta, Siopa, Ymlacio

### 16 Cei'r Fôr-forwyn
Bwytai, bariau, caffis, lleoliadau adloniant y glannau gan gynnwys The Glee Club ac Everyman Cinema. Yn ogystal â siopau bwtîc, gwasanaethau moethus, teithiau cwch Aquabus a maes parcio i ymwelwyr i 380 o geir mewn lleoliad trawiadol.
**www.mermaidquay.co.uk**

### 17 Canolfan Red Dragon
Canolfan enfawr sy'n llawn adloniant gwych a llefydd blasus i fwyta. Y tu mewn mae unig sinema IMAX yn y de, bowlio deg a diddanwch, ynghyd â champfa a chasino. Ar agor bob dydd tan yn hwyr gyda digon o lefydd parcio am ddim i gwsmeriaid*. Mae eich antur yn aros... **www.thereddragoncentre.co.uk**
***Hyd at 6 awr gyda dilysu ANPR a lleiafswm gwariant***

### 18 Sayers Amusements
Mwynhewch olygfeydd gorau Bae Caerdydd o'r Olwyn Arsylwi 33 metr. Ar agor bob dydd o fis Ebrill at ddiwedd mis Medi, mae tocynnau ar gael i'w prynu ar y diwrnod felly does dim angen archebu ymlaen llaw. **www.sayersamusements.co.uk**

### 19 Natuzzi Italia
Soffas cynllunydd, ystafelloedd gwely, bwyta, ac ategolion yn siop Natuzzi Bae Caerdydd. Ar agor 7 diwrnod yr wythnos.
**F: 029 2048 8698 www.natuzzi.co.uk**


### 20 Pavers
Camwch y ffordd yma i ddarganfod y casgliadau mwyaf cyfforddus eto! Dewch o hyd i'ch steil berffaith yn Pavers heddiw. A beth yw'r darn gorau? Cewch arbedion enfawr o 30% neu fwy oddi ar yr RRP. **F: 029 2048 8362 www.pavers.co.uk**

### 21 Giovanni's Yn Y Bae
Bwyty llwyddiannus sy'n gweini bwyd traddodiadol o'r Eidal, mewn adeilad eiconig yng nghanol Bae Caerdydd!
**F: 029 2049 5480 www.giovanniscardiff.co.uk**


### 22 LoLounge
Bar coctêl cŵl a trendi sy'n gweini bwyd harti. Golygfeydd machlud trawiadol sy'n edrych dros y bae. Lleoliad gwych gyda chalendr llawn o ddigwyddiadau cyffrous. **F: 029 2009 0060**
**info@lolounge.co.uk**


25


20


24

/CardiffBayOfficial @VisitCardiffBay @cardiffbayofficial




# Bae Caerdydd

## Mwy na dim ond diwrnod allan da...

Atyniadau gwych i ymwelwyr, digwyddiadau o safon ryngwladol, hanes, diwylliant ac adloniant.

**Mwynhewch awyrgylch unigryw Bae Caerdydd!**




## Sut i gyrraedd

### Ar y Bws

**i Fae Caerdydd**

Y Baycar (gwasanaeth rhif 6) yw'r ffordd hawsaf o deithio rhwng canol dinas Caerdydd a'r Bae. Mae bysiau'n rhedeg yn aml, a hynny saith niwrnod yr wythnos. Mae gwasanaethau rhif 7 ac 8 hefyd yn rhedeg rhwng canol dinas Caerdydd a Bae Caerdydd.

**I'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol**

Mae gwasanaeth rhif 7 yn rhedeg rhwng canol y ddinas, y Bae a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Mae gwasanaeth rhif 9 yn rhedeg rhwng canol y ddinas a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol saith niwrnod yr wythnos. Ewch i **www.cardiffbus.com** am amserlenni a gwybodaeth bellach.

### Yn y Car

**i Fae Caerdydd**

Dilynwch yr arwyddion am Fae Caerdydd. O'r tu allan i Gaerdydd ar yr M4, gadewch yng nghyffordd 33 a dilynwch yr A4232. O'r dwyrain, gadewch yng nghyffordd 29 a chymryd y 3ydd ffordd oddi ar yr A48.

**Pentref Chwaraeon Rhyngwladol**

Dilynwch arwyddion Bae Caerdydd ac yna'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Ewch ar ffordd gangen Cogan o'r A4055 neu'r troad i'r Barri oddi ar yr A4232 ac yna ar yr M4 yng nghyffordd 33.

Cewch fanylion cwmnïau tacsis yn y Bae ar ein gwefan: **www.visitcardiffbay.info**

### Parcio

**Q Park, Bae Caerdydd, Stryd Pen y Lanfa**

Parcio diogel ar gyfer 1,239 o geir sydd wedi cael gwobr diogelwch Park Mark. Mae manylion am lefydd eraill i barcio ym Mae Caerdydd ar gael ar ein gwefan: **www.visitcardiffbay.info**

### Ar Gwch

Mae yna nifer o gwmnïau sy'n cynnig teithio mewn cychod a thrafnidiaeth yn ardal Bae Caerdydd. Mae manylion y cwmnïau hyn i'w gweld ar ein gwefan **www.visitcardiffbay.info**

### Ar Feic

Gallwch deithio i'r bae ac archwilio'r ardal ar feic gyda Pedal Power ac Ovo Bikes. Gyda digon o reseli beiciau ar gael i'ch galluogi i stopio a mwynhau'r ardal.

/CardiffBayOfficial
@VisitCardiffBay
@cardiffbayofficial


Lluniwyd y daflen hon gan Bartneriaid Glannau Bae Caerdydd

This leaflet is printed on FSC paper from sustainable forests

Design and production by Accent Creative


# Ymweld â Bae Caerdydd










visitcardiffbay.info